*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(h) a (j) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth yn dilyn arolygiad o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Y graddau y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hwy yw'r rhai a roddir gan Weinidogion Cymru mewn adroddiad arolygu o dan adran 36(2)(d) o'r Ddeddf.

Yn unol â'r pŵer yn adran 37(2)(a) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau penodol i arddangos graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn modd a bennir ac mewn man a bennir.

Yn unol ag adran 37(2)(c) o'r Ddeddf, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn graddau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofynion penodedig sy'n ymwneud ag arddangos graddau a roddir gan Weinidogion Cymru.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y graddau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn adroddiadau arolygu. Mae

rheoliad 3 yn rhagnodi'r mannau y mae rhaid arddangos graddau ynddynt a'r modd y mae rhaid i raddau gael eu harddangos. Mae'n cynnwys gofynion i raddau a roddir gael eu dangos ar wefannau, a hefyd i arwyddion gael eu harddangos ym mhob man y darperir gwasanaethau penodol ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Mae rheoliad 4 yn cynnwys darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn graddau pan fo amodau penodol wedi eu bodloni.

Mae Rhan 3 yn ymdrin â throseddau. Mae rheoliad 5 wedi ei wneud o dan adran 45 o'r Ddeddf ac yn darparu bod methiant gan ddarparwr gwasanaeth i gydymffurfio â gofynion darpariaethau penodedig yn y Rheoliadau hyn yn drosedd.

Mae Rhan 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 ac yn nodi pa droseddau am dorri gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn sy'n gallu bod yn destun hysbysiad cosb a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 52 o'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(h) a (j) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2025 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *31 Mawrth 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 37(1) a (2)(a) ac (c), 45, 52(1)(**1**) a (6) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**2**) ("y Ddeddf") ac ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adran 37(3) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(h) a (j) o'r Ddeddf ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**3**).

## RHAN 1

### Cyffredinol

#### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025.

(**1**) Mae adran 52(1) yn cyfeirio at droseddau sy'n "rhagnodedig". Mae adran 189 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) yn diffinio "a ragnodir" a "rhagnodedig" i olygu "wedi ei ragnodi drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru".

(**2**) 2016 dccc 2.

(**3**) Mae cyfeiriadau yn y Ddeddf at "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2025.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad arolygu" ("*inspection report*") yw adroddiad a lunnir gan Weinidogion Cymru ar ôl arolygiad yn unol ag adran 36 o'r Ddeddf;

ystyr "darparwr gwasanaeth" ("*service provider*") yw person sydd wedi ei gofrestru gan Weinidogion Cymru fel darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

ystyr "graddau arolygu" ("*inspection ratings*") yw'r graddau y mae rhaid i Weinidogion Cymru eu cynnwys mewn adroddiad arolygu o dan adran 36(2)(d) o'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth cartref gofal" ("*care home service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

mae i "gwasanaeth cymorth cartref" ("*domiciliary support service*") yr ystyr a roddir gan baragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf;

ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol" ("*relevant regulated service*") yw—

(a) gwasanaeth cartref gofal;

(b) gwasanaeth cymorth cartref.

# RHAN 2

## Graddau arolygu

**2.** Mae'r Rhan hon yn gymwys i raddau arolygu a roddir gan Weinidogion Cymru mewn adroddiad arolygu o dan adran 36(2)(d) o'r Ddeddf(**1**).

## Gofyniad ynghylch arddangos graddau arolygu

**3.**—(1) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth ddangos ar bob gwefan a gynhelir ganddo neu ar ei ran y graddau arolygu diweddaraf—

(a) ar gyfer pob man y mae'n darparu gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef, a

(b) mewn ffordd sy'n ei gwneud yn glir pa fan y mae graddau arolygu penodol yn ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth sicrhau bod copïau o'r graddau arolygu diweddaraf yn cael eu rhoi ar gael ar gais ar gyfer pob man y mae'n darparu gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.

---

(**1**) Mae adran 36(2)(d) yn cael effaith yn rhinwedd gwneud y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth arddangos, ym mhob man y mae’n darparu gwasanaeth ynddo neu ohono, o leiaf un arwydd yn dangos y graddau arolygu diweddaraf sy’n ymwneud â’r gwasanaeth a ddarperir yn y man hwnnw neu o’r man hwnnw.

(4) Ond nid yw paragraff (3) yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn perthynas â man y mae’n darparu’r canlynol ynddo neu ohono—

(a) gwasanaeth cartref gofal—

(i) a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i bersonau sydd o dan 18 oed, neu

(ii) sy’n lletya pedwar neu lai o unigolion, oni bai bod y darparwr gwasanaeth yn dewis arddangos y graddau arolygu diweddaraf sy’n ymwneud â’r man hwnnw;

(b) gwasanaeth cymorth cartref—

(i) pan fo’r man y darperir y gwasanaeth ynddo neu ohono yn anhygyrch i aelodau o’r cyhoedd, neu

(ii) pan fo unigolyn sy’n cael y gwasanaeth yn byw yn y man y darperir y gwasanaeth ynddo neu ohono.

(5) Rhaid i raddau arolygu a arddangosir yn unol â gofynion y rheoliad hwn—

(a) cael eu harddangos yn ddi-oed ar ôl i raddau arolygu gael eu cyhoeddi mewn adroddiad arolygu;

(b) bod ar y ffurf benodedig a ddynodir gan Weinidogion Cymru;

(c) bod yn ddarllenadwy;

(d) cynnwys y dyddiad y rhoddwyd y graddau arolygu;

(e) cael eu harddangos mewn lle amlwg, ac ar gyfer arwyddion a arddangosir o dan baragraff (3), gael eu harddangos mewn lleoliad sy’n hygyrch—

(i) i unigolion sy’n cael y gwasanaeth;

(ii) i ymwelwyr â’r man y darperir y gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol ynddo neu ohono.

## Apelio yn erbyn graddau arolygu

**4.**—(1) Caiff darparwr gwasanaeth apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn graddau arolygu a roddwyd pan fo’r amodau a nodir ym mharagraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod y darparwr gwasanaeth, o fewn 10 diwrnod gwaith sy’n dechrau â’r diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod yr anfonir copi o adroddiad arolygu at y darparwr

gwasanaeth(**1**), wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn ceisio adolygiad o’r graddau arolygu ar y sail eu bod yn seiliedig ar un neu’r ddau o’r canlynol—

(i) anghywirdeb ffeithiol;

(ii) tystiolaeth anghyflawn,

(b) bod y darparwr gwasanaeth wedi cael canlyniad adolygiad Gweinidogion Cymru o’r graddau arolygu,

(c) bod y darparwr gwasanaeth, o fewn 5 diwrnod gwaith sy’n dechrau â’r diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod yr hysbysir y darparwr gwasanaeth am ganlyniad yr adolygiad, wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig ei fod yn ceisio apelio yn erbyn canlyniad yr adolygiad, a

(d) bod yr apêl yn cael ei gwneud ar yr un seiliau â’r rhai y dibynnir arnynt i geisio’r adolygiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a).

(3) Pan fo apêl yn cael ei gwneud gan ddarparwr gwasanaeth, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ystyried yr apêl a chadarnhau’r graddau arolygu terfynol drwy anfon adroddiad arolygu terfynol at y darparwr gwasanaeth;

(b) cydymffurfio â’r ddyletswydd i gyhoeddi’r adroddiad arolygu o dan adran 36(3)(a) o’r Ddeddf.

# RHAN 3

## Troseddau

**5.**—(1) Mae’n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â gofyniad unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Y darpariaethau a bennir at ddibenion paragraff (1) yw darpariaethau rheoliad 3(1) a (3).

# RHAN 4

## Diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019

**6.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 2, yn y lle priodol mewnosoder—

---

(**1**) Cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl i arolygiad gael ei gynnal, rhaid i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar yr arolygiad ac anfon copi ohono at y darparwr gwasanaeth o dan adran 36(1) o’r Ddeddf.

(**2**) O.S. 2019/887 (Cy. 159).

"ystyr "y Rheoliadau Graddau Arolygu" ("*the Inspection Ratings Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025;";

(b) ar ôl rheoliad 9 mewnosoder—

**"Troseddau o dan y Rheoliadau Graddau Arolygu**

**9ZA.**—(1) Mae'r drosedd o dan y ddarpariaeth yn y Rheoliadau Graddau Arolygu a restrir yng ngholofn gyntaf y tabl yn Atodlen 5A wedi ei rhagnodi'n drosedd at ddibenion adran 52(1) o'r Ddeddf.

(2) Mae ail golofn y tabl yn Atodlen 5A yn cynnwys disgrifiad o natur gyffredinol y drosedd ragnodedig.

(3) Mae swm y gosb sydd i'w dalu ar gyfer y drosedd wedi ei bennu yn nhrydedd golofn y tabl yn Atodlen 5A.";

(c) ar ôl Atodlen 5 mewnosoder—

# "Atodlen 5A Rheoliad 9ZA

# Troseddau rhagnodedig - graddau arolygu

| ***Y ddarpariaeth sy'n creu'r drosedd*** | ***Natur gyffredinol y drosedd*** | ***Swm y gosb*** |
|---|---|---|
| Rheoliad 3(1) a (3) o'r Rheoliadau Graddau Arolygu | Mynd yn groes i'r gofyniad ynghylch arddangos graddau arolygu, neu fethiant i gydymffurfio ag ef | Swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol" |

*Enw*

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad